

CYPE SP 119

Ymateb gan: RhAG

Response from: RhAG

Rhieni dros Addysg Gymraeg

Mudiad yw RhAG sy'n cynrychioli rhieni disgyblion mewn ysgolion Cymraeg a rhai sydd am weld twf ysgolion Cymraeg ac addysg Gymraeg. Caiff RhAG ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae RhAG yn credu, fel y gwna Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model ysgol gorau o ran rhoi sgiliau llawn mewn dwy iaith i bob disgybl.

Mae RhAG yn falch o'r cyfle i gyflwyno'r sylwadau canlynol ar flaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod chweched tymor Senedd Cymru.

Fel mudiad sy'n gweithredu er lles hyrwyddo Addysg Gymraeg, byddwn yn cyfyngu ein sylwadau i faterion sy'n ymwneud â'r maes penodol hwnnw.

CREU SIARADWYR CYMRAEG NEWYDD: materion allweddol ar gyfer 2021 ymlaen

Mae RhAG am weld cytundeb ar draws pob plaid wleidyddol, wrth i Gymru anelu am filiwn o siaradwyr Cymraeg, ac am filiwn o bobl yn defnyddio'r iaith bob dydd, erbyn 2050. Nod RhAG yw gwneud addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb a'i mynno, trwy sicrhau

- bod addysg Gymraeg yn hwylus ac o fewn pellter rhesymol i deuluoedd ym mhob cymuned;
- cydraddoldeb ystyrlon o ran dewis a chyfleoedd;
- bod gwybodaeth am addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd yn hysbys i bawb;
- cefnogaeth i rieni wella eu sgiliau Cymraeg neu ddysgu.

CYFFREDINOL

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi targed o gynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg a nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr y Gymraeg erbyn 2050, rydym yn galw ar i'r Pwyllgor sicrhau cynllunio gofalus a chydlynus er mwyn cyrraedd y nod uchelgeisiol hwn.

Mae cyflymu twf yr ysgolion Cymraeg, sef y prif ddull o gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg, dros y tri deg mlynedd nesaf, yn gwbl allweddol os ydym am wireddu'r targedau hyn.

BLAENORIAETHAU

Mae RhAG eisoes wedi cyhoeddi ein blaenoriaethau ar gyfer cyflymu twf Addysg Gymraeg ar ffurf ein dogfen maniffesto, *Creu Siaradwyr Cymraeg Newydd: materion allweddol ar gyfer 2021 ymlaen*, a gyhoeddwyd cyn etholiadau'r Senedd yn 2021.

Gellir crynhoi ein prif gasgliadau fel a ganlyn:

Mesurau i gyflymu twf ysgolion cyfrwng Cymraeg

CYNLLUNIAU STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Mae Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn llunio eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Rydym yn croesawu bod y Cynlluniau hyn yn mynd i roi nodau twf dros 10 mlynedd i awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn croesawu ymdrech y Llywodraeth i roi targedau penodol i bob sir. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, bod cyllid digonol ar gael i awdurdodau i gyrraedd eu nodau.

DATBLYGU DULLIAU AMRYWIOL O SEFYDLU YSGOLION CYMRAEG

Mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu dulliau newydd o sefydlu ysgolion Cymraeg. I wneud hyn, mae angen polisi cenedlaethol fydd yn rhoi arweiniad cadarn a chlr ar:

- ei gwneud yn hwylus i ysgolion unigol drosi'n ysgolion Cymraeg;
- mynnu, lle mae nifer o ysgolion Saesneg mewn ardal, bod un neu ragor yn cael eu trosi'n ysgolion Cymraeg;
- sefydlu dosbarthiadau cychwynnol

Nodwn fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ymgymryd ag *Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* yn ystod y pedwerydd Cynulliad. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi cyfres o argymhellion. Gofynnwn i'r Pwyllgor ailymweld â'r argymhellion hynny, fel sail i ymchwiliad newydd ar y don nesaf o Gynlluniau ar gyfer y cyfnod 2022 - 2021, er mwyn pwysu ar y Llywodraeth i weithredu.

Cyllid cyfalaf

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy nag £1.5 biliwn yng ngham nesaf Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Ond beth fydd cyfran y gwariant hwnnw ar addysg Gymraeg? Amlygodd ymchwil gan RhAG bod gwariant ar addysg Gymraeg yn ystod cyfnod ariannu Band A o gwmpas traean hynny a wariwyd ar brosiectau addysg Saesneg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ehangu'n sylweddol eu rhaglen cyllid cyfalaf i fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae canfod arian cyfatebol yn aml yn rhwystr sydd wedi llesteirio sawl sir rhag gweithredu cyn hyn. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n rhaid rhoi rhaglen o dwf cyflym ar waith ac mae sicrhau cyllid digonol i wireddu hynny yn gwbl allweddol. Galwn ar y Llywodraeth felly i gynyddu'r cyllid cyfalaf a referniw sydd ar gael er mwyn galluogi'r siroedd i weithredu.

Byddem yn dymuno gweld adolygiad llawn o gyfnod ariannu Band B. Mae angen adnabod cyfanswm y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r sector cyfrwng Cymraeg fesul sir, pa brosiectau sydd wedi eu gwireddu, neu sy'n debygol o gael eu gwireddu, a oes angen mwy o gyllid i gwblhau prosiectau penodol? Rhaid cael trosolwg o'r sefyllfa bresennol, yng ngoleuni Brexit a phandemig Covid, i adnabod beth yw'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol. Mae cynnal ymarferiad o'r fath yn hanfodol cyn i gyfnod ariannu Band C ddechrau ar ganol y ddegawd hon.

Diffiniadau ieithyddol ysgolion

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y Llywodraeth ar ddechrau'r flwyddyn hon.

Mae RhAG wedi galw am adolygu'r polisi categoreiddio ers dros ddegawd ac felly'n croesawu bwriad y Llywodraeth i weithredu ar hyn.

Mae angen sefydlu trefn sy'n cynnig eglurder i ddisgyblion, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg.

Bydd yn ofynnol i'r categorïau newydd hyn alinio yn esmwyth gyda'r Cwricwlwm newydd a fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar feithrin sgiliau Cymraeg ar draws y system addysg gyfan, yn ogystal â'r dyletswyddau statudol sydd wedi eu gosod ar Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer cynnydd a thwf mewn addysg Gymraeg yn y siroedd drwy gyfrwng y CSCAau, fel y prif offeryn erbyn hyn ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg. Ac i lawer o'r siroedd, y categorïau ieithyddol newydd fydd y sbardun ar gyfer cyrraedd eu targedau yn eu Cynlluniau unigol.

O safbwynt RhAG, y prif egwyddor a ddylai yrru'r gwaith yw'r angen i'r holl rhanddeiliaid – a rhieni yn arbennig – i gael gwybodaeth glir am yr hyn yw ysgolion Cymraeg a'r sgiliau a enillir trwy eu mynychu.

Cytunwn yn gryf hefyd gyda'r argymhelliad yn *Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg* - Cwmni LinguaNi Cyf (WG41371, Rhagfyr 2020), mai un o'r egwyddorion creiddiol ddylai fod nad yw ysgolion yn medru cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg yn y dyfodol nag a wnaethpwyd yn y gorffennol. Cwbl hanfodol felly yw diogelu statws ysgolion Gymraeg yn y categorïau newydd.

Tra bod yr hyn a gynigir, ar yr olwg gyntaf, yn annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg trwy symud ar hyd y continwmm, mae'n ofid gennym y gallai'r diffiniadau sydd wedi eu cynnig hyd yma, oherwydd yr amwysedd cyffredinol sy'n eu nodweddu, danseilio'r amcanion sylfaenol.

Y cynnig mewn perthynas a'r uwchradd sy'n peri'r gofid mwyaf i ni fel mudiad ac mae'r disgrifiad o'r categori hwn fel categori 'ysgol cyfrwng Gymraeg' yn gwbl annerbyniol. O dan y drefn bresennol, mae Categori 1 a 2A yn dysgu o leiaf 80% o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg i bob disgybl'. Mae'r diffiniad newydd sy'n cael ei gynnig yn hepgor yn llwyr unrhyw sôn am ysgol Gymraeg. Dylid cynnwys categori arall, i sicrhau parhad o'r drefn bresennol, a fyddai'n nodi bod o leiaf 80% o'r cwricwlwm yn cael ei ddysgu trwy'r Gymraeg i bob disgybl. Credwn y dylai'r categori newydd hwn gynnwys dau is-gategori: (i) i ddiogelu ysgolion sy'n barod yn cyflwyno popeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac eithrio'r Saesneg fel pwnc, i bob disgybl, a chategori (ii) sy'n dysgu o leiaf 80% o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg i bob disgybl. Gyda phwyslais penodol ar ethos Gymraeg yr ysgol.

Mae'n hollbwysig nad oes trefn newydd yn cael ei sefydlu a fyddai'n gorsymleiddio patrymau ieithyddol yr ysgolion, gan arwain at ganlyniadau anffafriol i addysg Gymraeg.

Mae'r egwyddorion gwaelodol a'r deiliant terfynol yn ganmoladwy ond ofnwn bod y dull o gyrraedd y nod yn ddiffygiol ar hyn o bryd ac o'u gweithredu y gallent agor y drws i ganlyniadau all fod yn andwyol i addysg Gymraeg a thanseilio'r enillion a gafwyd hyd yn hyn.

Pwyswn ar y Pwyllgor i gadw golwg ar y gwaith o ddatblygu'r categorïau hyn gan eu bod yn garreg sylfaen anhepgorol i dwf addysg Gymraeg.

Cludiant

Mae angen i awdurdodau lleol weithredu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 gan sicrhau bod cludiant yn hyrwyddo addysg Gymraeg.

Mae pellter ysgolion Cymraeg o gartrefi disgyblion yn fwy na phellter ysgolion Saesneg o gartrefi ar gyfartaledd. Dylai fod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant i wneud iawn am y gwahaniaeth hwn.

Mae ymchwil RhAG yn dangos fod sicrwydd trafndiaeth cyn bwysiced os nad yn bwysicach na chael cludiant am ddim. Mae'r ymchwil hwnnw hefyd yn awgrymu y gallai'r sector Cymraeg 16+ chwalu oni bai bod cludiant ar gael yn ôl amodau'r sector -16.

Mae rhai siroedd yn codi cannoedd o bunnoedd ar ddisgyblion sy'n teithio i gael Addysg Gymraeg 16+. Mae'r darlun cenedlaethol yn anghyson ac anghydradd, gyda'r drefn bresennol yn loteri cod post ac addysg Gymraeg yn cael ei effeithio yn anghymesur.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi bod dyletswydd ar awdurdodau addysg i ddarparu cludiant mewn modd sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae angen eglurder ar hyn ac ar y camau y gall Llywodraeth eu cymryd os na fydd Awdurdodau Lleol yn gweithredu'n unol â hyn.

I gael cydraddoldeb ar addysg Saesneg, mae addysg Gymraeg yn dibynnu ar gludiant 3 - 18 oed. Ar hyn o bryd caiff llawer o rieni addysg Gymraeg eu cosbi'n ariannol oherwydd eu bod yn byw'n bell o ysgol Gymraeg. Er bod Mesur Teithio gan Ddysgwyr (2008) yn nodi bod angen i awdurdodau lleol ddarparu cludiant i hyrwyddo addysg Gymraeg, nid oes cyswllt anhepgor wedi'i wneud rhwng darparu cludiant ac addysg Gymraeg. Mae'r cyswllt hwn yn hanfodol i barhad sawl ysgol Gymraeg, yn arbennig yn y sector 16+. Mae diffyg cludiant statudol i rai o dan 5 yn llesteirio twf addysg Gymraeg yn y sector meithrin ac yn cael effaith andwyol ar ddilyniant.

Galwn am adolygiad cenedlaethol o bolisi a threfniadau cludiant ysgol i'r cartref presennol gan arwain at warant o gludiant am ddim i'r ysgol Gymraeg agosaf o 3 - 18 oed.

Dechrau'n Deg

Mae gwaith ymchwil gan RhAG wedi dangos nad yw'r ddarpariaeth yn dod yn agos at y canrannau presennol sy'n derbyn addysg Gymraeg. Mae hyn yn milwrio yn erbyn ehangu Addysg Gymraeg yn hanner siroedd Cymru.

Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei fwriad i ehangu'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hynny'n golygu buddsoddiad ariannol sylweddol gan Lywodraeth

Cymru. Dyma faes allweddol sy'n gorgyffwrdd â chylch gorchwyl sawl Gweinidog, gan gynnwys Trechu Tlodi, Gofal Plant ac Addysg. O ganlyniad mae angen arweiniad a chyfarwyddyd polisi cenedlaethol o'r canol mewn perthynas â statws y Gymraeg o fewn y rhaglen ac ymrwymiad gan y Llywodraeth i sicrhau fod y Gweinidogion perthnasol yn gweithredu'n unol â hynny.

Cefnogi rhieni

Mae angen i rieni gael cefnogaeth lawn wrth iddynt anfon plant i ysgolion Cymraeg. Mae angen cynnig rhaglen ddwys o ddysgu a gloywi Cymraeg i rieni a darpar rieni, gan flaenoriaethu rhieni sy'n awyddus i droi iaith y cartref i'r Gymraeg. Awgrymwn y gellid cyllido rhaglen o'r fath ar ffurf Cytundeb Iaith / y Gymraeg, yn cynnwys ymrwymiad ymarferol i'w cefnogi ar y daith ieithyddol. Mae lle amlwg i gydweithio rhwng Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ysgolion. Dylid cyflogi rhwydwaith o swyddogion maes pwrpasol i siarad wyneb yn wyneb gyda rhieni ac i weithredu fel dolen gyswllt rhwng y cartref, Cylchoedd Meithrin a'r ysgolion.

Mae'n angenrheidiol pwysleisio pwysigrwydd swyddogaethau'r partneriaid Cymraeg eraill hefyd i wneud y Gymraeg yn fwy nag iaith Addysg – Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, yr Urdd a'r Mentrau Iaith.

Hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd

Prin iawn yw'r marchnata sy'n digwydd i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae rhieni'n aml heb gael gwybodaeth am y dosbarthiadau meithrin Cymraeg a'r ysgolion Cymraeg yn eu hardal. Mae hyn yn wir yn aml hyd yn oed pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu neu pan gaiff dosbarthiadau eu cychwyn.

Mae angen ymgyrch genedlaethol gynhwysfawr i'w chynnal yn flynyddol ac wedi ei chyllido'n ddigonol, i rannu negeseuon a gwybodaeth glir am addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd i ddarpar rieni, rhieni a gofalwyr. Rydym yn argymhell fod angen datblygu hwb canolog ar ffurf gwefan ynghyd ag adnodd digidol ar ffurf Ap, a fydd yn caniatáu i rieni a gofalwyr gael mynediad rhwydd a chyflym at wybodaeth er mwyn eu harfogi i wneud penderfyniadau gwybodus; creu a darparu pecyn gwybodaeth i deuluoedd newydd sy'n symud i Gymru; dyfeisio rhaglen arbennig er mwyn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig Cymru.

Mae angen i rieni gael gwybodaeth glir am yr hyn yw ysgolion Cymraeg a'r sgiliau a enillir trwy eu mynychu. Mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng ysgolion Cymraeg a mathau eraill o ysgolion, gan mai ysgolion Cymraeg yn unig sy'n darparu sgiliau cyflawn yn y ddwy iaith i bob disgybl ac sy'n rhoi amgylchfyd Cymraeg cyflawn iddynt.

Galwn am ymchwiliad penodol i adolygu'r drefn bresennol.

Staffio a chynllunio'r gweithlu

Nid gormodiaeth yw datgan fod y sefyllfa bresennol yn canu clychau enbyd. Mae'n hysbys bod prinder gweithlu cyfrwng Cymraeg i ddiwallu anghenion y sector, fydd yn tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, yn unol â'r cynnydd disgwylidig o ganlyniad i'r CSGAau.

Mae'n allweddol sicrhau bod llif digonol o athrawon i gynnal addysg Gymraeg a'r Gymraeg mewn ysgolion eraill. Rhaid ehangu'n sylweddol y rhaglen hyfforddiant iaith i athrawon cynradd ac uwchradd sydd am droi i addysg Gymraeg a chefnogi rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau iaith ar gyfer hwyrdyfodiaid.

Yn ychwanegol at hynny, rhaid sicrhau bod strategaeth mewn lle i gynllunio'n briodol ar gyfer yr holl ystod o staff sy'n angenrheidiol i gynnal a thyfu'r sector cyfrwng Cymraeg, o'r blynyddoedd cynnar hyd at y sector addysg uwch. Mae diffyg penaethiaid hefyd yn her gyson a sylweddol.

Bydd angen cydweithredu rhwng y prif bartneriaid allweddol: sy'n cynnwys y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, colegau a phrifysgolion Cymru ac eraill, i gyflawni hyn ac i bennu targedau penodol fel rhan o gytundebau cyllido darparwyr hyfforddiant er mwyn cynyddu'r gweithlu i ddiwallu'r angen a'r galw wrth i'r sector ehangu. Mae angen sicrhau bod gan staff sgiliau ieithyddol digonol. Er bod rhai cynlluniau cadarnhaol i roi hyfforddiant iaith i athrawon, nid yw'r rhain yn rhan o dargedau uchelgeisiol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwyrddroi addysg Gymraeg.

Mae angen ymchwiliad penodol fydd yn galw am dystiolaeth gan y rhanddeiliaid allweddol er mwyn amlygu'r heriau presennol a chyfrannu at ddatrysiad brys i'r argyfwng hwn.

Addysg Dysgu Ychwanegol

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

Mae'r ddarpariaeth bresennol o safbwynt y Gymraeg, yn parhau'n ddiffygiol mewn sawl rhan o Gymru, ac mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill.

Ceir o hyd enghreifftiau o 'arbenigwyr' yn cynghori rhieni i symud eu plant o'r sector cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gan ddatgan y byddai'r plentyn 'ar ei

ennill' o wneud hynny. Mae hyn yn ddull o beidio darparu gwasanaeth Cymraeg, ac mae'n gwrthod hawl disgybl o gael addysg yn ei ddewis iaith.

Mae angen gwneud awdit cyffredinol o'r ddarpariaeth fesul sir, a sicrhau bod cydweithio rhyngsirol yn cael ei hwyluso i roi tegwch i ddisgyblion sydd eisoes yn dioddef o anabledau neu anawsterau dysgu. Byddai adolygiad cychwynnol o wir effaith y Ddeddf newydd o safbwynt y Gymraeg yn fanteisiol iawn.

Adolygiad i waith y Consortia Addysg

Credwn fod angen cynnal adolygiad llawn a chynhwysfawr o waith y consortia addysg. Dylai hynny gynnwys gorolwg o'u statws presennol fel endidau, eu cylch gorchwyl, cysondeb eu gwaith ledled Cymru, lefel y gefnogaeth a ddarperir i'r ysgolion, eu blaenoriaethau presennol ac yn y dyfodol. A yw'r drefn o ganoli'r gwasanaeth yn ei ffurf bresennol yn gweithio? Beth yw effaith hyn ar safonau?

Cefnogaeth ychwanegol i'r Gymraeg

Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am gynlluniau'r Llywodraeth i gefnogi hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg, fel rhan o raglen cefnogi ôl-cofid. Ond mae cwestiynau'n parhau ynghylch a fydd y cyllid hwn ar gael yn yr hirdymor? Yn achos mewnddyfodiaid i wledydd Prydain, mae'r Llywodraeth yn cynnig gwersi iaith Saesneg am ddim. Dylai hyn ddigwydd i fewnddyfodiaid i Gymru, gyda gwersi Cymraeg yn cael eu darparu am ddim. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n rhaid rhoi rhaglen o dwf cyflym ar waith ac mae diogelu cyllid gwasanaeth pwysig y Canolfannau Iaith yn elfen cwbl allweddol o wireddu'r polisi cenedlaethol hwn.

Credwn fod dirfawr angen craffu ar y gefnogaeth i'r Gymraeg yn y cyfnod ôl-cofid.

Deddfwriaeth

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn ddiffygiol. Mae RhAG hefyd o'r farn fod y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i addysg Gymraeg yn ddarniog, yn annigonol, neu wedi'i hymgorffori mewn deddfau eraill. Mewn rhai meysydd mae canllawiau ond nid deddfau, ac mewn ambell faes, nid oes deddfwriaeth yn bodoli.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu RhAG yn galw am lunio Bil Addysg Gymraeg er mwyn cryfhau'r seilwaith deddfwriaethol presennol. Credwn y byddai llunio fframwaith cyfreithiol o'r fath yn rhoi'r amodau gorau i addysg Gymraeg ffynnu a datblygu.

Felly rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i ddeddfu er mwyn cryfhau a chynyddu'r ddarpariaeth mewn addysg Gymraeg yn ystod tymor y Senedd hwn.

Er bod nifer o Ddeddfau, Rheoliadau a Chanllawiau yn gefnogol i addysg Gymraeg, nid oes eglurder ar sut i weinyddu neu orfodi'r rhain. Mae'n amlwg hefyd fod rhai sy'n tanseilio, neu'n cael eu gweithredu mewn modd sy'n afresymol neu anghymesur mewn perthynas ag addysg Gymraeg.

Mae dyletswyddau Awdurdodau Lleol yn gallu bod yn amwys, a hyd yn oed os gwelir eu bod yn gweithredu'n ddiffygiol neu'n negyddol, nid oes llwybrau amlwg i'w dal i gyfrif.

Daeth yn amlwg hefyd fod gormod o benderfyniadau pellgyrhaeddol yn cael eu gwneud yn y maes addysg yng Nghymru ar sail asesiadau ieithyddol cwbl ddiffygiol.

Mae'r model amgylcheddol yn fodel da, ble ceir cyfreithiau manwl iawn o ran beth sydd angen ei asesu wrth adeiladu rhywbeth a'i effaith ar yr amgylchedd, ac yn esiampl o ran y cyd-destun ieithyddol, Mae bylchau mawr i'w llenwi o ran y cyd-destun ieithyddol gyda maes cynllunio ac addysg yn ddau faes all gael effaith mawr ar y Gymraeg.

Byddai llunio canllaw ar sut i gynnal asesiad effaith ieithyddol ar sail statudol yn gosod sylfaen llawer mwy cadarn i'r drefn bresennol.

Ymhellach at hynny, credwn fod angen eglurder ac arweiniad cenedlaethol ar swyddogaeth y Safonau Iaith a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran y ffyrdd y gallant hwyluso cyrraedd targedau'r Llywodraeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

Byddai ymchwiliad penodol ar yr holl agweddau hyn, fel gwaith paratoadol i'r broses o lunio'r darn hwn o ddeddfwriaeth, yn werthfawr iawn.

Sylwadau cryno a gyflwynir yma ond byddem yn croesawu'r cyfle i ymhelaethu arnynt yn ôl yr angen.